



## Abergelli Power Ltd

### Hysbysiad o Wrandawiadau o dan Reol 13(6) Rheolau Cynllunio Seilwaith (Gweithdrefn Archwilio) 2010 ac Adran 91 o Ddeddf Cynllunio 2008

### Hysbysiad o Wrandawiadau ynghylch y Cais am Orchymyn Caniatâd Datblygu ar gyfer Gorchymyn Gorsaf Cynhyrchu Tanwydd Nwy Abergelli

#### Cyfeirnod yr Arolygiaeth Gynllunio: EN010069

1. Hysbysir trwy hyn y cynhelir gwarandawiadau, ar y dyddiad, amser a lleoliad a nodir isod, gan yr Awdurdod Archwilio (a benodwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol ("Ysgrifennydd Gwladol")) ar gyfer archwilio'r cais a wnaed gan Abergelli Power Ltd ("APL") o Drax Power Station, Drax, Selby, Gogledd Swydd Efrog, YO8 8PH am Orchymyn Cydsynio Datblygu ("DCO") ar gyfer Gorsaf Gynhyrchu sy'n Rhedeg ar Nwy Abergelli (y "Cais"). Gwnaed y cais o dan Adran 37 o Ddeddf Cynllunio 2008 ar 25 Mai 2018 ac fe'i derbyniwyd i'w archwilio gan yr Ysgrifennydd Gwladol ddydd Iau 21 Mehefin 2018. Y cyfeirnod a roddwyd i'r Cais gan yr Arolygiaeth Gynllunio, ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol, yw EN010069.

#### Crynodeb y Prosiect

2. Mae APL yn bwriadu adeiladu a gweithredu gorsaf cynhyrchu pŵer brig Tyrbin Nwy Cylch Agored ("OCGT") (y "Gwaith Cynhyrchu Pŵer") o hyd at 299 Megawat ("MW") a chysylltiadau newydd â'r rhwydweithiau nwy a thrydan ar dir yn Fferm Abergelli, Abertawe, Cymru (y "Prosiect"). Mae'r Cais yn ceisio caniatâd i adeiladu, gweithredu a chynnal y Gwaith Cynhyrchu Pŵer (y "datblygiad awdurdodedig"). Yn ogystal, mae'r Cais yn ceisio awdurdodi caffael tir a hawliau dros dir, a diddymu neu atal, neu ymyrryd â, buddiannau mewn tir neu hawliau dros dir er mwyn hwyluso gwaith adeiladu a gweithredu'r Prosiect.
3. Byddai'r Gwaith Cynhyrchu Pŵer yn cynnwys yr elfennau canlynol:
  - Cyfarpar Cynhyrchu gan gynnwys un Generadur Tyrbin Nwy ag un stac fflw nwy gwag a'r Cydrannau Ategol a'r Systemau Cynorthwyol (BOP) (y cyfeirir atynt gyda'i gilydd fel "Cyfarpar Cynhyrchu"), sydd wedi'u lleoli ar "Safle'r Cyfarpar Cynhyrchu";
  - Ffordd Fynediad i Safle'r Prosiect o'r B4489 a leolir tua'r gorllewin, a ffurfir trwy uwchraddio ffordd fynediad bresennol rhwng cyffordd B4489 ac Isorsaf Gogledd Abertawe (yr "Isorsaf") ac adeiladu rhan newydd o ffordd fynediad o'r Isorsaf i Safle'r Cyfarpar Cynhyrchu;
  - Safle adeiladu dros dro i storio deunyddiau, offer a chyfarpar, yn ogystal â chynnwys cyfleusterau lles a llety'r safle, manau parcio dros dro a ffensys dros dro (yr "Llecyn Storio"). Cedwir llecyn bychan o fewn yr Llecyn Storio yn barhaol (y "Cwrt Cynnal");
  - Llecyn Lliniaru Effaith ar Ecoleg - llecyn ar gyfer gwelliannau ecolegol o fewn Ffin Safle'r Prosiect; a
  - Pharcio a draenio parhaol i gynnwys: system draenio dŵr brwnt ac olewaidd a dŵr arwyneb.
4. Mae'r datblygiad awdurdodedig yn cynnwys gorsaf cynhyrchu trydan ar y tir yng Nghymru â chapasiti dros 50MW, felly mae'n brosiect seilwaith cenedlaethol sylweddol ("NSIP") o dan Adran 15 (2) o Ddeddf Cynllunio 2008. Yn unol â hynny, mae angen caniatâd datblygu o dan Adran 31 o Ddeddf Cynllunio 2008.
5. Mae'r Cysylltiad Nwy a'r Cysylltiad Trydanol yn cynnwys datblygiad sy'n gysylltiedig â'r NSIP ("Datblygiad Cysylltiedig"). Fodd bynnag, gan mai gorsaf gynhyrchu yng Nghymru o dan 350 MW yw'r Prosiect, ni ellir rhoi cydsyniad am Ddatblygiad Cysylltiol yn unol ag adran 115 o Ddeddf Cynllunio 2008. Yn unol â hynny, bydd APL yn gwneud cais am ganiatâd cynllunio am gydsyniad i ddatblygu'r Cysylltiad Nwy a'r Cysylltiad Trydanol.
6. Gyda'i gilydd, gelwir y Cyfarpar Cynhyrchu, Llecyn Storio, Ffordd Fynediad, Cwrt Cynnal, Llecyn Lliniaru'r Effaith ar Ecoleg a manau parcio a draenio parhaol fel y "Gwaith Cynhyrchu Pŵer". Cyfeirir at y Gwaith Cynhyrchu Pŵer, y Cysylltiad Nwy, y Cysylltiad Trydanol a'r holl ofynion mynediad fel y "Prosiect".
7. Cyfeirir at y tir y byddai'r Prosiect yn cael ei ddatblygu arno, neu a fyddai'n ofynnol er mwyn hwyluso datblygiad y Prosiect, fel "Safle'r Prosiect". Arwynebedd Safle'r Prosiect yw oddeutu 35ha.
8. Bydd y DCO, os caiff ei ganiatáu, yn awdurdodi adeiladu, gweithredu a chynnal y datblygiad awdurdodedig, ac ymhlith pethau eraill, byddai'n darparu ar gyfer y canlynol:

- Caffaeliad gorfodol gan APL o dir a hawliau dros dir, gan gynnwys y gallu i greu hawliau newydd a gosod cyfamodau cyfyngol dros dir, sy'n ofynnol ar gyfer y Prosiect a'r gallu i feddiannu a defnyddio tir dros dro at ddibenion adeiladu, gweithredu a chynnal y Prosiect;
- Atal neu ddileu hawliau preifat neu gyfamodau cyfyngol dros dir sy'n ofynnol ar gyfer adeiladu, gweithredu a chynnal y Prosiect;
- Gwaredu coed a pherthi o fewn Safle'r Prosiect yn ôl y gofyn;
- Gwaith lliniaru tirlunio ac ecolegol;
- Atal dros dro neu reoli'r briffordd gyhoeddus a hawliau tramwy cyhoeddus a gwaith stryd fel y'i disgrifir yn y Cais;
- Newidiadau i'r rhwydwaith priffyrdd cyhoeddus ac adeiladu mynedfeydd dros dro a pharhaol i'r Prosiect fel y'u disgrifir yn y Cais; a
- Gweithredu a/neu anweithredu deddfwriaeth berthnasol yn ôl y gofyn.

### Gwrandawiadau

- Cynhellir gwrandawiadau ar y dyddiadau, amseroedd ac yn y lleoliad canlynol:

<u>Dyddiad</u>	<u>Math o Wrandawriad</u>	<u>Amser</u>	<u>Lleoliad</u>
Dydd Mercher 10 Hydref 2018	Gwrandawriad yn ymwneud â Materion Penodol ar y Gorchymyn Caniatâd Datblygu drafft	Cyrraedd: 1.30pm Dechrau: 2.00pm	<b>Gwesty'r Village Abertawe</b> , Heol Langdon, Abertawe SA1 8QY

- Ym mhob gwrandawriad penodol i bwnc, mae hawl gan bartïon a chanddynt fuddiant (yn amodol ar bwerau rheolaeth yr Awdurdod Archwilio ar y modd y cynhellir y gwrandawriad) i wneud sylwadau llafar am y mater penodol dan sylw. Mae bartïon a chanddynt fuddiant yn cynnwys unrhyw berson sydd wedi gwneud sylw perthnasol i'r Awdurdod Archwilio yn unol ag Adran 102(4) o Ddeddf Cynllunio 2008, yn ogystal ag APL, a gwahanol bersonau a chyrrff a ragnodir gan y statud.
- Pe bai angen llai o amser na'r disgwyl i ystyried y materion, gellir cloi'r gwrandawriad cyn gynted ag y bo'r holl gyfraniadau perthnasol wedi eu gwneud ac y bo'r holl gwestiynau wedi eu gofyn ac wedi cael ateb. Os oes materion ychwanegol i ymddrin â hwy, neu os oes cyflwyniadau sy'n cymryd llawer iawn o amser mewn unrhyw wrandawriad, gallai fod angen parhau'r sesiwn am gyfnod hwy ar y diwrnod neu ohirio'r gwrandawriad a pharhau mewn eisteddiad dilynol.
- Caiff unrhyw wrandawriadau ychwanegol at y rhai a restrir eu hysbysebu gan un neu ragor o hysbysiadau. Yn unol â Rheol 13(3) o Reolau Cynllunio Seilwaith (Gweithdrefn Archwilio) 2010, fel y'u diwygiwyd, bydd yr Arolygiaeth Gynllunio hefyd yn rhoi gwybod i bartïon a chanddynt fuddiant am y dyddiad, yr amseroedd a'r lleoliad ar gyfer pob gwrandawriad.
- I gael gwybodaeth ychwanegol am y gwrandawriadau, archwiliad y Cais a'r amserlen lawn (ac unrhyw ddiwygiadau iddi), gan gynnwys sut a phryd i gofrestru i siarad yn y gwrandawriadau a sut a phryd i wneud sylwadau llafar, ewch i wefan yr Arolygiaeth Gynllunio, lle mae penderfyniadau gweithdrefnol a hysbysiadau o wrandawriadau ar gael i'w lawrlwytho: <https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/projects/wales/abergelli-power/>

### Copïau o'r Cais

- Bydd copi o'r Ffurflen Gais a'r dogfennau, y cynlluniau a'r mapiau cysylltiedig (gan gynnwys y Gorchymyn Caniatâd Datblygu drafft a'r Datganiad Amgylcheddol) ar gael i'w harchwilio yn rhad ac am ddim yn y manau canlynol (gall oriau agor amrywio):

<u>Lleoliadau</u>	<u>Oriau Agor</u>
<b>Llyfrgell Ganolog Abertawe</b> Y Ganolfan Ddinesig, Heol Ystumllwynarth, Abertawe SA1 3SN	Ar gau ar ddydd Llun Dydd Mawrth i ddydd Gwener, 8:30am-8:00pm Dydd Sadwrn a dydd Sul, 10:00am-4:00pm

- Mae'r ffurflen Gais a'r dogfennau, y cynlluniau a'r mapiau cysylltiedig hefyd ar gael ar-lein ar wefan yr Arolygiaeth Gynllunio: <https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/projects/wales/abergelli-power/>
- Gellir prynu copïau o'r ffurflen Gais a'r dogfennau, y cynlluniau a'r mapiau cysylltiedig, gan gynnwys y Datganiad Amgylcheddol, gan APL trwy ddefnyddio'r manylion cyswllt ar ddiwedd yr hysbysiad hwn. Gellir cael copi papur o'r gyfres lawn o ddogfennau'r Cais am dâl copïo rhesymol hyd at uchafswm o £500. Fel arall, gellir cael copi electronig o'r gyfres lawn o ddogfennau'r Cais am £25. Fel arall, mae copïau o ddogfennau unigol hefyd ar gael ar gais, ac efallai y bydd angen talu amdanynt.

### Rhagor o Wybodaeth

- Gellir cael rhagor o wybodaeth am y Cais, y gwrandawriadau a sut i gymryd rhan yn yr Archwiliad neu unhyw faterion eraill sydd wedi eu cynnwys yn yr hysbysiad hwn gan yr Arolygiaeth Gynllunio neu APL, gan ddefnyddio'r manylion cyswllt canlynol:

<b>Yr Arolygiaeth Gynllunio</b>	<b>Abergelli Power Limited</b>
---------------------------------	--------------------------------

<p>Yr Arolygiaeth Gynllunio [The Planning Inspectorate] Temple Quay House Temple Quay Bryste BS1 6PN</p> <p>0303 444 5000 <a href="https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/projects/wales/abergelli-power">https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/projects/wales/abergelli-power</a></p>	<p>Freepost ABERGELLI POWER</p> <p>01792 957 026 <a href="http://www.abergellipower.co.uk">www.abergellipower.co.uk</a> <a href="mailto:info@abergellipower.co.uk">info@abergellipower.co.uk</a></p>
---	--

[19 Medi 2018]